Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

theurbanists



Cyngor Gwynedd

# Canol Tref y Bala
## Cynllun Creu Lleoedd

Mehefin 2024



theurbanists

**Paratowyd gan:** The Urbanists
**Cyfeiriad:** The Urbanists,
The Creative Quarter, 8A Morgan Arcade,
Caerdydd, CF10 1AF, Deyrnas Unedig
**E-bost:** info@theurbanists.net
**Gwefan:** www.theurbanists.net

**Dyddiad cyhoeddi:** 14/06/2024
**Statws lluniadu:** DRAFFT TERFYNOL
**Adolygu:** 03
**Awdur:** FV, ET, LH
**Wedi'i wirio gan:** LH

**Ar ran:**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Atgynhyrchir yr holl gynlluniau yn y ddogfen hon o'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi (C) Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad/achos sifil. Rhif trwydded 100054593.

## Cynnwys

01. Cyflwyniad i'r Cynllun Creu Lleoedd

02. Canol Tref Y Bala Heddiw

03. Uchelgeisiau a Strategaeth Lleoedd

04. Cynllun Gweithredu

05. Casgliad

Atodiad A - Adborth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Atodiad B – Deunydd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

# 01. Cyflwyniad i'r Cynllun Creu Lleoedd

## Rhagymadrodd

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd i arwain gwelliannau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ar draws y Sir. Nododd y Fframwaith Adfywio 13 o ardaloedd adfywio lleol a datblygwyd Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un ohonynt. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Adfywio Lleol ar gyfer Dalgylch y Bala a Phenllyn.

Ar ôl cwblhau'r Cynllun Adfywio Lleol mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Tref y Bala wedi comisiynu'r gwaith o baratoi Cynllun Creu Lleoedd i'r Bala er mwyn sefydlu uchelgeisiau allweddol ar gyfer canol y dref a chyfres o flaenoriaethau strategol y gellir eu dilyn. Mae paratoi'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer canol y dref yn ategu'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adfywio Lleol sy'n nodi sut y gall canol y dref gyfrannu at ffyniant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach ardal y Bala a Phenllyn.

Mae Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref y Bala yn cynnig gweledigaeth lleoedd pwrpasol ar gyfer y Bala yn seiliedig ar gyd-ddyheadau trigolion, busnesau a Chyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Tref y Bala. Mae'n nodi'r uchelgeisiau ar gyfer canol y dref yn unol â Siarter Creu Lleoedd Cymru ac yn egluro'r math o ymyriadau pwrpasol y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Bala'n parhau'n gyrchfan allweddol ar gyfer y trigolion presennol a chenedlaethau'r dyfodol.




Esboniad:
- Lleoliad y Prosiect
- Dinas/Tref
- Ffordd
- Llwybrau Llongau/Fferi Allweddc
- Dyfroedd
- Parc Cenedlaethol
- Ffiniau'r Fwrdeistref Sirol
- Ffin Cymru/Lloegr
- Ffin Rhanbarth Gogledd Cymru

## Polisi Creu Lleoedd

Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru yn nodi mai creu lleoedd yw'r ffordd orau o wella llesiant a chreu lleoedd cynaliadwy. Mae Creu Lleoedd yn ddull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiad sy'n ystyried cyfleoedd datblygu yn gyfannol yng nghyd-destun y lleoedd lleol, i sicrhau eu bod yn briodol i'r lleoedd ac yn cefnogi'r gymuned yn y ffordd orau. Fel hyn, mae creu lleoedd yn sicrhau fod datblygiad yn cael ei ddylunio a'i gyflwyno mewn ffordd sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl yn yr ystyr ehangaf.

Mae creu lleoedd yn broses statudol yng Nghymru ac mae'n sail i'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod datblygiadau a buddsoddiadau newydd yn adeiladu ar, ac yn gwella'r ymdeimlad o leoedd yn ein trefi a'n aneddiadau ehangach.

Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru yn gofyn am gynllunio, buddsoddi a datblygu er mwyn creu lleoedd cynaliadwy. Mae gan leoedd cynaliadwy y cymysgedd cywir o gartrefi yn y lle iawn; byddant yn cynnwys cyflogaeth a gwasanaethau lleol; yn meddu ar seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, dulliau teithio llesol rhagorol; ac, yn wyrdd. Mae polisi cenedlaethol yn diffinio eu bod hefyd yn gofyn am ddefnydd amrywiol o ganol trefi sy'n bodloni anghenion lleol.

I gydnabod y rôl allweddol sydd gan ganol trefi i'w chwarae wrth greu lleoedd cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r egwyddor 'Canol Tref yn Gyntaf', sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob buddsoddiad a chynnig masnachol, manwerthu, addysg, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus mawr newydd gael eu lleoli yng Nghymru o fewn canol trefi. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu rhaglen gyllido Trawsnewid Trefi, i alluogi prosiectau i ailddatblygu a gwella canol trefi ac ardaloedd cyfagos.

I gydnabod rôl bwysig creu lleoedd, mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi'i chyflwyno yng Nghymru ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad gan y rhai sy'n gweithio ym maes datblygu, dylunio ac adfywio i gefnogi datblygiad lleoedd o ansawdd uchel. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y Siarter yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, a gweithio ar y cyd i wella llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant i arwain camau gweithredu ac yn nodi sut y dylai cyrff cyhoeddus weithio.

Mae datblygiadau cynaliadwy yn ganolog i'r Ddeddf, ac mae'n seiliedig ar roi blaenoriaeth gyfartal i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae pob agwedd ar les yr un mor bwysig â'r llall ac mae'n hollbwysig bod y pedwar peth yn cael eu gwella. Bydd y dull hwn yn sicrhau "cwrdd anghenion y presennol heb amharu ar anghenion y dyfodol". Gan mai creu lleoedd yw'r broses er mwyn cyflawni datblygiadau cynaliadwy, mae'n elfen ganolog i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei chyflawni a sicrhau'r cydbwysedd rhwng anghenion presennol â diogelu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.




Y saith nod llesiant ar gyfer Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi'r gofyniad ar gyfer 'rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol' ynghyd â ffyrdd newydd o weithio i gyflawni hyn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried yr heriau y mae adnoddau naturiol ac ecosystemau'n eu hwynebu, a'r cyfleoedd y gallant eu rhoi. Mae angen ystyried y ffyrdd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli a phenderfynu sut y gellir lleihau'r pwysau ar adnoddau. Trwy gamau gweithredu megis cynyddu effeithlonrwydd adnoddau neu leihau llygredd, y nod yw creu ecosystemau mwy gwydn.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn rhan allweddol o'r fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sefydlwyd gan y Ddeddf. Y ffocws yw gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol:

Mae'r polisi yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol:

- Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau
- Mabwysiadu ymagwedd yn seiliedig ar leoedd

Mae Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy 2035 yn gynllun ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac yn nodi gweledigaeth a chyfres o egwyddorion i sicrhau bod twristiaeth o fewn yr ardal i yn yr ardal gynaliadwy "fel bod yr hyn sydd mor unigryw am yr ardal yn parhau i gael ei warchod heddiw. ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."




Gweledigaeth ac egwyddorion Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035.

Mae Cynllun Creu Lleoedd y Bala wedi'i ddatblygu yn unol â pholisi a deddfwriaeth genedlaethol a lleol ac mae'n hyrwyddo'r agenda hon, gan gynnig sail ar gyfer buddsoddi a sicrhau bod canol tref y Bala yn lle cynaliadwy, sy'n gwasanaethu anghenion ei chymuned ehangach.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) yn gosod y fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn cynnwys Polisïau Strategol a Datblygu a luniwyd i gyflawni gweledigaeth ofodol hirdymor a chynaliadwy ar gyfer Eryri a darparu trosolwg ar gyfer datblygu ac asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd angen i gynigion yn y Bala gydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Lleol, cael ffocws ar warchod a gwella rhinweddau arbennig y lle, a hybu lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.



## Cynlluniau Creu Lleoedd

Mae cynlluniau creu lleoedd yn ffordd o sicrhau bod creu lleoedd yn cael ei ddefnyddio fel proses statudol. Mae cynlluniau creu lleoedd yn arbennig o bwysig i fodloni egwyddor 'canol tref yn gyntaf' Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r dirywiad ar ein strydoedd mawr traddodiadol. Maent yn fodd i bennu gweledigaeth gyson ar gyfer canol trefi, a gaiff ei chefnogi gan randdeiliaid, y gellir eu defnyddio i fuddsoddi mewn modd sy'n gwella amrywiaeth a gwydnwch, ac yn bywiogi canol trefi.

### Siarter Creu Lleoedd Cymru

Yn 2020 datblygodd Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Mae'r Siarter yn rhoi cyngor ar arferion creu lleoedd y gellir eu defnyddio wrth baratoi cynlluniau creu lleoedd; yn atgyfnerthu'r ffocws cryfach a gaiff ei roi ar Greu Lleoedd mewn polisi ac arfer yng Nghymru, a chyda'r nod o ddarparu trosolwg o'r ystod o ystyriaethau sy'n ymwneud â chreu lleoedd; y bwriad yw hyrwyddo creu cymunedau bywiog, cynaliadwy a chynhwysol ledled Cymru drwy ganolbwyntio ar ansawdd a dyluniad lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt.

Mae Cynllun Creu Lle'r Bala wedi'i baratoi o amgylch pob un o Egwyddorion y Siarter, gyda phob un yn llywio'r dadansoddiad o ganol tref y Bala heddiw, yr uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, a'r math o brosiectau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gyflawni newid.

Er mwyn helpu i gynnig arweiniad ar arfer, mae'r Siarter yn cyflwyno chwe egwyddor creu lleoedd: Pobl a Chymuned; Symudiad; Parth Cyhoeddus; Lleoliad; Cymysgedd o Ddefnyddiau; a Hunaniaeth. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion hyn. Adroddir ar yr egwyddorion isod ac fe'u defnyddiwyd i strwythuro'r ddogfen hon.




Mae'r diagram uchod yn dangos sut mae'r egwyddorion creu lleoedd, a nodir yn y ddogfen *Canllaw Creu Lleoedd Cymru (2020)*, gyda'i gilydd yn cyfrannu at greu gwell ymdeimlad o le, ac amgylchedd o ansawdd uchel i bawb.

### EGWYDDORION CANLLAW CREU LLEOEDD CYMRU

GWEITHGAREDD



#### Symudiad

Rhoddir blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gallu cynnig dewis o ddulliau teithio ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol diogel sydd wedi eu dylunio'n dda yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol.



#### Cymysgedd o Ddefnyddiau

Mae gan leoedd ystod o ddibenion ac maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd y datblygu ac amrywiaeth o ddefnydd a deiliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a gofodau cyhoeddus bywiog.

LLEOLIAD FFISEGOL



#### Lleoliad

Dylai lleoedd dyfu a datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac yn meddu ar gysylltiadau da. Cynllunnir lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill i helpu i leihau'r angen i deithio.



#### Parth Cyhoeddus

Dylai strydoedd a mannau cyhoeddus fod wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol, gyda hunaniaeth unigryw. Byddant wedi'u cynllunio i fod yn wydn ac yn addasadwy, gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draenio cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Byddant wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio.

YSTYR



#### Pobl a Chymuned

Mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a lles pawb yn cael eu hystyried o'r cychwyn. Mae cynigion yn cael eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned ac i hyrwyddo cydraddoldeb.



#### Hunaniaeth

Mae rhinweddau cadarnhaol a nodedig lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Nodir ac ymatebir i nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, nodweddion adeiladau a nodweddion naturiol.

## Ein Ardal / Fframwaith Adfywio Ardal Ni

Mae'r Fframwaith Adfywio yn rhannu'r Sir yn 13 o Ardaloedd Adfywio Lleol ac mae cynlluniau gweithredu wedi'u creu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Mae'r Bala yn rhan o Ddalgylch y Bala a Phenllyn. Caiff ei leoli yn rhan ddwyreiniol y Sir, gyda thref y Bala yng nghanol yr ardal. Mae'r dalgylch yn cynnwys cymunedau'r Bala, Llandderfel, Llanuwchllyn, Llangywer a Llanycil.

Fel rhan o'r fframwaith adfywio, cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, a oedd yn nodi'r Bala fel anheddiad allweddol i'r ardal, sy'n gallu darparu gwasanaethau a mannau siopa i'r dalgylch ehangach.







**DALGYLCH Y BALA A PHENLLYN**

**Poblogaeth o 4,503**

**Mae 60.3% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed**

**Mae 76% yn gallu siarad Cymraeg sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Gwynedd (65%) a Chymru (19%)**

**Mae 7% o'r tai yn dai haf, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru (3%) ond yn llai na chyfartaledd Gwynedd (11%)**

Ffynhonnell:
Our Area / Ardal Ni, Fframwaith Adfywio Dogfen Baratoi Cynllun Adfywio Lleol (Ebrill 2023)

## Dalgylch Y Bala a Phenllyn Heddiw

Yn ystod gwaith ymgysylltu Ardal Ni holwyd trigolion dalgylch y Bala a Phenllyn am eu barn ynghylch:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, a fyddai'n gwneud eich ardal yn lle gwell i fyw ynddi?

Mae'r pum thema uchaf a nodwyd yn ystod yr ymgysylltu wedi'u nodi gyferbyn.


Our Area / Ardal Ni
Regeneration Framework
LOCAL REGENERATION PLAN
Preparatory Document (April 2023)
Bala and Penllyn Catchment Area

### Beth sy'n dda am ddalgylch y Bala a Phenllyn?

- Yr amgylchedd naturiol ac agosrwydd at y mynyddoedd, Llyn Tegid a chefn gwlad
- Lle da i fagu teulu
- Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
- Ysbryd cymunedol a chyfeillgarwch
- Gwasanaethau a darpariaethau iechyd a gofal lleol da

### Beth sydd ddim cystal am dalgylch y Bala a Phenllyn?

- Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol eu prynu neu eu rhentu
- Diffyg swyddi llawn amser a chyflogau da
- Nifer uchel o ail gartrefi a thai haf yn yr ardal
- Pellter daearyddol o gyfleusterau a gwasanaethau
- Rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn annigonol

### Pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn digwydd yn nalgylch y Bala a Phenllyn dros y 15 mlynedd nesaf a fyddai'n gwneud yr ardal yn lle gwell i fyw?

- Cynlluniau i sicrhau tai sy'n ateb anghenion pobl leol
- Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio a datblygu mannau gwyrdd
- Datblygu cynlluniau i ddiwallu anghenion pobl ifanc yr ardal
- Byddai cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol hefyd yn denu mwy o fusnesau a fyddai'n creu swyddi o safon i'r ardal
- Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy'n hygyrch, yn integredig ac yn addas ar gyfer anghenion yr ardal

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu yn hanfodol er mwyn gallu datblygu cynlluniau Creu Lleoedd llwyddiannus. Mae'n hollbwysig deall a chyflawni egwyddorion creu lleoedd Cymunedol a Hunaniaeth y Siarter Creu Lleoedd yn llawn; mae hefyd yn hanfodol i sicrhau cydberchnogaeth a galluogi'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud â llunio cymeriad a bywiogi trefi i gydweithio er mwyn cyflawni buddsoddiadau.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Creu Lleoedd hwn. Roedd y strategaeth ymgysylltu yn defnyddio Siarter Creu Lleoedd Cymru (Placemaking Wales Charter - PWC) drwy gydol y broses ymgysylltu; defnyddiwyd y chwe egwyddor creu lleoedd allweddol i arwain a strwythuro'r ffordd y cafodd gwybodaeth ei chasglu, ei rhannu, a'i defnyddio gyda'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol. Sicrhaodd y dull hwn fod yr holl randdeiliaid wedi ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â'r themâu ar gyfer pob un o'r egwyddorion a bod y Cynllun Creu Lleoedd yn unol â'r Siarter Creu Lleoedd. Bydd yr ymgysylltu'n parhau i lywio'r gwaith o gyflawni'r prosiectau a nodwyd drwy'r Cynllun Creu Lleoedd.

Mae'r broses ymgysylltu a gynhaliwyd ar gyfer y Bala wedi'i chrynhoi gyferbyn ac mae'n cynnwys ymweliad safle rhyngweithiol; gweithdy; ac ymgysylltu un-i-un ar-lein.




Nodau ymgysylltu â rhanddeiliaid Urbanists.

### 1. Ymweliad Safle ac Ymgysylltiad Cychwynnol

Mynychwyr:

Cyngor Gwynedd
Aelodau a Chynghorwyr y Dref

Cyfarfu'r tîm dylunio â'r cleient a rhanddeiliaid lleol allweddol yn y Bala, a threulio amser yng nghanol y dref i ymweld â safleoedd ac adeiladau allweddol er mwyn adnabod cyfleoedd a heriau posibl. Roedd yr ymweliad safle'n cynnwys y Stryd Fawr a chanol y dref, y darpariaethau chwaraeon ac asedau cymunedol ar Stryd y Castell, yr hen ysgol gynradd, promenâd newydd glan y llyn a'r ganolfan hamdden, safle'r orsaf reilffordd newydd a mwy. Casglwyd gwybodaeth bwysig yn ystod y digwyddiad cyntaf hwn gan roi dealltwriaeth ddefnyddiol a helpu i fframio digwyddiadau ymgysylltu pellach.

### 2. Gweithdai Creu

Mynychwyr:

Cyngor Gwynedd
Aelodau a Chynghorwyr y Dref
Cynrychiolwyr Grwpiau Lleol
Swyddog Parc Cenedlaethol
Perchnogion Busnes

Cynhaliwyd gweithdy creu gweledigaeth wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Henblas y Bala gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd y gweithdy wedi'i strwythuro'n dair rhan er mwyn nodi heriau a chyfleoedd allweddol - yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer opsiynau twf ac adfywio – gan adnabod y prif bethau oedd yn gyrru'r gwaith ac uchelgeisiau allweddol y dylid eu cynnwys fel sail i ddyfodol y dref.

### 3. Ar-lein Ymgysylltu

Mynychwyr:

Ymddiriedolaeth Rheilffordd y Bala
Y Priffyrdd
Cynghorwyr
Parc Cenedlaethol Eryri

Er mwyn sicrhau ymgysylltiad cynhwysol a thrylwyr, cynhaliwyd ymgysylltiadau un-i-un ar-lein hefyd gyda rhanddeiliaid allweddol na allent fynychu'r gweithdy creu gweledigaeth, neu fel ffordd o ymgysylltu dilynol i gasglu adborth ar yr uchelgeisiau craidd drafft a'r ymyriadau creu lleoedd a nodwyd.

### 4. Ar-lein Gweithdai

Mynychwyr:

Cyngor Gwynedd a
Cyngor Tref y Bala

Nod y cyfarfodydd oedd casglu adborth ar y Cynllun Creu Lleoedd drafft, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr uchelgeisiau craidd a'r prosiectau creu lleoedd a nodwyd.
Roedd y wybodaeth a gasglwyd o gymorth i fireinio'r Cynllun Creu Lleoedd a sicrhau bod yr holl gyfleoedd allweddol a chynlluniau ar y gweill yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Creu Lleoedd.



Tîm dylunio a rhanddeiliaid allweddol yn ystod yr ymweliad safle yn y Bala.



Lluniau o'r gweithdy ymgysylltu wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yng Nghanolfan Henblas y Bala gyda rhanddeiliaid allweddol.

# 02. Canol Tref Y Bala Heddiw

## Cyflwyno'r Bala

Mae'r Bala yn dref farchnad hanesyddol sydd wedi'i lleoli yn nwyrain y Sir; mae'r dref ger ffiniau gweinyddol Sir Ddinbych a Chonwy. Mae'r Bala yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri ac mae'r tirwedd o amgylch y dref a'r llyn enwog wedi'i ddynodi'n Dirwedd Hanesyddol. Fel tref farchnad hanesyddol, mae'r Bala yn anheddiad allweddol i'r Sir, yn gwasanaethu trigolion ond hefyd y dalgylch ehangach o gymunedau amaethyddol gwledig. Dynodwyd y dref yn ganolfan gwasanaethau lleol yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri, gan adlewyrchu ei statws fel cyrchfan manwerthu a gwasanaethau strategol yn ogystal â lle ar gyfer hamdden a chyflogaeth.

Mae gan y Bala gyswllt da trwy'r rhwydwaith priffyrdd strategol ag aneddiadau allweddol eraill y Sir, gan gynnwys Dolgellau, Pwllheli, Porthmadog, Bangor a Chaernarfon. Oherwydd ei lleoliad yn nwyrain y Sir, mae cyswllt ardderchog ag aneddiadau allweddol eraill yn ardaloedd Awdurdodau Lleol cyfagos Sir Ddinbych, yn enwedig aneddiadau Corwen, Llangollen a Chonwy. Gwasanaethir y dref gan yr A494 sy'n darparu cysylltiad strategol gorllewin/dwyrain trwy Ogledd Cymru rhwng Dolgellau a Chaer. Mae'r A494 yn cysylltu â'r A470 yn y gorllewin sef y rhwydwaith priffyrdd strategol i Dde Cymru a'r M56 yn y dwyrain, sy'n darparu mynediad i ogledd Lloegr. Gwasanaethir y dref gan wasanaethau bws sy'n gweithredu tua'r gorllewin i'r Bermo trwy Ddolgellau, ac i'r dwyrain i Wrecsam trwy Gorwen a Llangollen. Fodd bynnag, mae gwasanaethau'n gyfyngedig, sy'n golygu fod dibyniaeth ar gerbydau preifat fel y prif ddull o deithio i drigolion y dref.

Lleolir y dref ar ben gogleddol llyn enwog, Llyn Tegid, sef y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru; mae'r llyn tua 3.7 milltir o hyd a 0.5 milltir o led. Mae'r llyn yn arwain at dirwedd mynyddoedd Penllyn a mynyddoedd yr Aran, Arenig, a'r Berwyn, ardaloedd cystal pob tamaid ag ardaloedd ehangach Parc Cenedlaethol Eryri, ond sy'n llai prysur fel rheol. Oherwydd y cysylltiadau priffyrdd strategol a'r tirwedd trawiadol a'r golygfeydd, mae'r llyn yn ased hamdden a thwristiaeth arwyddocaol ac yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn, yn enwedig yn yr haf. Mae Rheilffordd Llyn Tegid hefyd yn gweithredu wrth y Llyn, gan redeg ar hyd y lan ddeheuol o Lanuwchllyn i gyrion tref y Bala, gyda chais cynllunio wedi ei gyflwyno yn ddiweddar i ymestyn y rheilffordd i ganol y dref.

Mae Stryd Fawr y Bala yn fywiog ac yn cynnwys arlwy fanwerthu leol bwrpasol, gyda siopau lleol; groseriaid, cigyddion, pobyddion, caffis, bwytai, tafarndai, llety gwyliau ac adnoddau manwerthu ar gyfer twristiaid tymhorol. Mae cyfraddau adeiladau gwag yn isel ond mae'r unedau gwag yn amlwg ac mewn rhai achosion mae'r eiddo o faint sylweddol, gan wneud eu presenoldeb yn fwy amlwg. Oddi ar y Stryd Fawr, mae gan y dref ehangach ysgolion cynradd ac uwchradd, canolfan hamdden fywiog, sinema/theatr, clybiau a rhwydweithiau chwaraeon egnïol, llyfrgell, cyfleusterau cymunedol, a chanolfan iechyd. Ar ochr ddwyreiniol y dref mae stad fasnach / ddiwydiannol leol sy'n darparu cyflogaeth leol. Mae parc diwydiannol wedi ei leoli ar ymyl dwyreiniol y dref, yn darparu gofod ar gyfer storio, dosbarthu, gweithgynhyrchu, a defnyddiau diwydiannol ysgafn sy'n darparu cyflogaeth leol. Lleolir Marchnad y Bala oddi ar y Stryd Fawr ar Stryd Arennig, lle mae arwerthwr da byw traddodiadol yn tystio i hanes amaethyddol y Bala a phwysigrwydd y dref i gymunedau amaethyddol ehangach ardal Penllyn.

Mae gan y Bala hanes cyfoethog hefyd, gydag olion sy'n mynd yn ôl i gyfnod y Rhufeiniaid. Mae hanes y dref yn cael ei adlewyrchu'n glir yn ei thirwedd amgylchynol a threfwedd y dref, gyda llawer o adeiladau cain yn adlewyrchu'r hanes cyfoethog. Un safle arwyddocaol yw Tomen y Bala, y bryncyn crwn ag ochrau serth i'r gogledd-ddwyrain o'r Stryd Fawr, sy'n codi uwchlaw canol y dref, ac a fu unwaith yn un o fwntau cestyll canoloesol mwyaf Cymru.




Mae gan y Bala hunaniaeth ddiwylliannol gref sydd wedi gwreiddio yn yr iaith Gymraeg a'i diwylliant; Mae 73% o drigolion y Bala yn siarad Cymraeg a 76% o ddalgylch ehangach Penllyn yn siarad Cymraeg o gymharu â chyfartaledd Sirol ehangach o 65% a chyfartaledd cenedlaethol o 19%. Mae ymdeimlad aruthrol o falchder cymunedol a rhwydwaith o weithgareddau chwaraeon a chymunedol lleol bywiog, yn ogystal â balchder yn yr arlwy sydd gan y dref i'w chynnig a'i rhannu gydag ymwelwyr.

## Hanes a Diwylliant y Bala

Mae gan y Bala hanes hir a chyfoethog yn dyddio nol i gyfnod y Rhufeiniad ym Mhrydain. Dros amser maith, mae'r dref wedi bod yn ganolfan strategol bwysig yn ogystal â bod yn ganolfan weinyddol sefydledig. Fel cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y dref, roedd yn anheddiad canoloesol caerog, ac ar ddechrau'r 13eg ganrif sefydlwyd Bwrdeistref Normanaidd gerllaw. Yr adeg honno, rhoddwyd siarter a chaniatâd i'r dref greu rôl maer. Crewyd Tomen Y Bala yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Mae'r Bala yn gadarnle cydnabyddedig i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant; Mae 73% o drigolion y dref leol yn siaradwyr Cymraeg tra yn ardal ehangach Penllyn, mae 76% yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd Sirol o 65% ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%.

Mae dylanwad y Bala yn fawr ar Gymru ac mae dylanwad y dref wedi ymestyn allan ac ar draws y Deyrnas Unedig a'r byd. Yn y 18fed ganrif, roedd y Bala yn ganolbwynt i ddiwydiant gwlân lleol a daeth y dref yn ganolbwynt arbenigol ar gyfer gweithgynhyrchu gwlanen, sanau ac ati. Roedd y dref yn arbennig o enwog am wau sanau, ac roedd hyd yn oed Brenin Siôr III yn ffafrio sanau o'r dref i helpu i drin cryd cymalau. Roedd cynhyrchu'r


Baner y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia.

eitemau hyn yn allweddol i'r economi leol gan ddarparu cyflogaeth allweddol ochr yn ochr â'r sector amaethyddol.

Roedd y Bala yn ganolbwynt hefyd i'r diwygiad crefyddol Cymreig a arweiniodd at sefydlu'r Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor gan griw yn cynnwys yr awdur diwinyddol enwog, y Parch. Thomas Charles, un o drigolion y Bala. Rhoddodd Mary Jones ysbrydoliaeth i'r Parchedig Thomas Charles sefydlu'r Gymdeithas wedi i'r ferch 15 mlwydd oed gerdded 25 milltir o'i chartref yn Llanfihangel-y-Pennant er mwyn prynu Beibl yn y Bala.

Roedd Betsi Cadwaladr a fu'n gweithio gyda Florence Nightingale yn Rhyfel y Crimea yn byw yn y Bala ac mae ei henw bellach yn cael ei gydnabod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sef y Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru sy'n gwasanaethu ardaloedd Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Preswylydd enwog arall oedd Michael D Jones, a fu'n Weinidog gyda'r Annibynwyr ac yn Brifathro coleg diwinyddol enwog Coleg y Bala. Roedd hefyd yn un o sylfaenwyr y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, ac mae'n cael ei gydnabod fel un o sefydlwyr cenedlaetholdeb Cymreig modern.

Ar ben gogledd-ddwyreiniol y Stryd Fawr saif cofeb i goffau Thomas Ellis, Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Feirionnydd. Yn y Bala y traddododd ei araith enwog yn galw am Senedd i Gymru.

Mae gan y Bala gysylltiad cryf â'r Eisteddfod Genedlaethol, gan gynnal yr ŵyl yn 1967, 1997, a 2009. Roedd Eisteddfod 2009 yn nodedig am na ddyfarnwyd y gadair i unrhyw un o'r ymgeiswyr gan fod y safon yn cael ei hystyried yn rhy isel. Yn 2014, yn y Bala y cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Ynghyd â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, mae'r tirwedd wedi bod yn rhan allweddol o hanes y dref. Mae'r sector amaethyddol lleol sydd wedi darparu cyflogaeth bwysig ers canrifoedd, ymdeimlad clir o gymuned a rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliannol cryf sy'n dal i weithredu yn y Bala ac ardal ehangach Penllyn. Yn fwy diweddar mae'r tirwedd a'i ddynodiad fel rhan o Barc Cenedlaethol Eryri wedi creu cyfleoedd twristiaeth a hamdden, ffynhonnell arall o gyflogaeth a busnes i'r dref a'i chymuned.


Y Bala o Lyn Tegid.

## Dadansoddiad Canol Tref

Er mwyn nodi'r problemau a'r cyfleoedd ar gyfer y cynllun creu lleoedd, cynhaliwyd adolygiad o leoedd yng nghanol y dref. Cynhaliwyd yr adolygiad ar y cyd â'r rhanddeiliaid a nodwyd yn Adran 1 ac roedd yn seiliedig ar daith gerdded o amgylch y dref ac yna gweithdy lle trafodwyd canfyddiadau allweddol. Mae'r dadansoddiad lle wedi'i ddelweddu yn y darluniau dadansoddi canlynol o'r dref ac fe'i cyflwynir isod gan ddefnyddio egwyddorion y Siarter Creu Lleoedd trwy ddadansoddiad Cryfderau a Chyfleoedd (SWOT) cryno. Mae'r adborth llawn a ddarparwyd gan randdeiliaid wedi'i gynnwys yn yr atodiadau.



Y prif fan cyhoeddus ar hyd y Stryd Fawr.




### Cynllun Cryfderau a Chyfleoedd






## Trosolwg o'r Cryfderau a Chyfleoedd

Ceir trosolwg o'r Cryfderau (Cryfder - C) a'r Cyfleoedd (Cyfle - CY) allweddol  a ddaeth i'r amlwg yn ystod y dadansoddiad o leoedd yn ystod y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid isod, gan ddilyn yr Egwyddor Creu Lleoedd.

## GWEITHGAREDD

### Symudiad

**C** - Mae cysylltiadau priffyrdd strategol y Bala yn golygu bod llawer yn ymweld â'r dref.

**C** - Mae'r promenâd ar hyd y llyn wedi'i uwchraddio ac mae'n boblogaidd.

**C** - Llawer o safleoedd parcio yn y dref, gan gynnwys mannau parcio dynodedig ar y Stryd Fawr.

**C** - Mae Rheilffordd Llyn Tegid yn gaffaeliad mawr i'r dref.

**CY** - Gwella'r cyswllt presennol i gerddwyr ar hyd ymyl y rheilffordd arfaethedig er mwyn cysylltu Llyn Tegid a chanol y dref yn well.

**CY** - Darparu mwy o bwyntiau gwefru trydan.

**CY** - Darparu gwell cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus.

**CY** - Adfywio ardaloedd wedi eu targedu ar hyd y Stryd Fawr i ddarparu amgylchedd gwell i gerddwyr.

**Cy** -  Gwella llwybrau beicio a darparu cyfleusterau storio a rhentu canolog.

**CY** - Cyflwyno gwell cyfeirbwyntiau ac arwyddion priodol i amlygu cymeriad y dref

**CY** - Y bwriad i ymestyn Rheilffordd Llyn Tegid i gysylltu canol y dref

### Cymysgedd o Ddefnyddiau

**C** - Mae gan y Stryd Fawr amrywiaeth gref o fanwerthwyr lleol annibynnol.

**C** - Mae gan y dref gymysgedd cryf o gyfleusterau bob dydd gan gynnwys lleoedd cymunedol, canolfan iechyd, theatr/sinema, ysgolion, banc a swyddfa bost, llyfrgell, canolfan hamdden a mannau awyr agored da.

**C** - Mae'r sylfeini yn eu lle ar gyfer economi nos dda yn rhinwedd y tafarndai a'r caffis/bwytai presennol.

**C** - Dim ond ychydig o unedau masnachol sydd yn wag ar y Stryd Fawr.

**CY** - Bydd datblygiad preswyl newydd a neilltuwyd i'r de o ganol y dref oddi ar y Stryd Fawr yn creu cartrefi newydd i bobl leol o fewn pellter cerdded hawdd i'r canol.

**CY** - Mae eiddo gwag allweddol ar hyd ac yn agos i'r Stryd Fawr yn cynnwys hen Sinema'r Bala, yr hen Ysgoldy, Y Llong - Ship Inn, a Neuadd y Cyfnod. Gallai'r rhain gael eu hailddatblygu neu eu hadnewyddu i helpu i greu pwyntiau mynediad nodedig i'r ganolfan a chyflwyno defnyddiau newydd.

**CY** - Mae'r hen ysgol 'goch' yn wag a gellid ei hailddatblygu i greu cartrefi newydd i'r gymuned leol neu gyfres o fannau cyflogaeth, tra gellid defnyddio'r cae chwarae i ddarparu man gwyrdd.

**CY** - Adfer a chynnal eiddo wedi'i dargedu ar hyd y Stryd Fawr i greu lleoliadau masnachol o ansawdd uchel, cyson.

**CY** - Darparu 'mannau all-lif' (spill out spaces) ar hyd y Stryd Fawr i fanwerthwyr lleol elwa a chreu mannau masnachol awyr agored sy'n creu diddordeb a gweithgaredd.

## LLEOLIAD FFISEGOL

### Lleoliad

**C** - Saif y Bala o fewn Parc Cenedlaethol Eryri gan ddenu llawer o dwristiaid, a chynyddu nifer yr ymwelwyr a ddaw i'r dref. Mae gan yr ardal gyfuniad unigryw o adnoddau dŵr a lleoliad mynyddig sydd yn llai prysur na rhai ardaloedd eraill yn y Parc. Mae lleoliad dwyreiniol y Bala ar gyrion y Parc yn golygu mai dyma'r man hawsaf i'w gyrraedd i lawer o ymwelwyr dydd.

**C** - Mae Llyn Tegid yn atyniad mawr i dwristiaid.

**C** - Mae gan y Bala ardal gadwraeth helaeth a nifer o adeiladau rhestredig, a'r hen Goleg Diwinyddol yn eistedd ar ben y bryn.

**CY** - Gweithio ar hygyrchedd y Bala er mwyn gallu amrywio'r cynnig twristiaeth a'i wneud yn gyrchfan gydol y flwyddyn. Cynnwys cyfleoedd hamdden dan do a rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau.

**CY** - Mynegi hanes cyfoethog y Bala a'r cysylltiad â'r iaith Gymraeg i wead ffisegol y dref a chreu arlwy ddiwylliannol i dwristiaid gydol y flwyddyn, sy'n hybu parch at hynodrwydd diwylliannol y Bala.

**CY** - Atgyfnerthu rôl y Bala fel tref strategol i gymunedau gwledig Penllyn ac fel canolfan i'r cymunedau amaethyddol. Gellid symud Marchnad y Bala i leoliad mwy cynaliadwy.

**CY** - Adeiladu ar y seiliau digidol sydd eisoes yn eu lle a chryfhau brand y Bala a phresenoldeb ar-lein er mwyn i'r byd ehangach ddod o hyd i arlwy unigryw'r Bala.

### Parthau Cyhoeddus

**C** - Mae'r gwaith cynnal a chadw yn dda ar y Stryd Fawr, ac adeiladau o ansawdd uchel yno ar y cyfan.

**C** -  Mae gan y Stryd Fawr lawer o wyrddni gyda choed aeddfed.

**CY** - Mae rhannau o dir cyhoeddus y Stryd Fawr yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol a masnachol.

**CY** - Gwella ansawdd mannau cyhoeddus a chyfeirbwyntiau tuag at adeiladau hanesyddol, darpariaethau a chyfleusterau y tu allan i'r Stryd Fawr.

**CY** - Yn ystod Covid, defnyddiwyd sawl man parcio yn llwyddiannus i ddarparu mannau all-lif (spill out) i fusnesau lleol, gan achosi traffig i arafu a phobl i aros o fewn canol y dref. Ystyriaeth i ddod â hyn yn ôl.

**CY** - Ymestyn a chyflwyno mannau cyhoeddus lle bynnag y bo' modd.

**CY** - Adennill ardaloedd ar y Stryd Fawr i gyflwyno mwy o wyrddni a mannau eistedd gwell.

**CY** - Gwella cysylltiadau i gerddwyr trwy wella/darparu llwybrau newydd ac integreiddio dulliau 'canfod y ffordd' i flaenoriaethu mannau allweddol.

**CY** - Datblygu cynllun man gwyrdd i fuddsoddi yn y cyfleusterau chwarae presennol a chyflwyno rhai newydd er mwyn darparu mannau awyr agored cynhwysol i blant a phobl ifanc.

**CY** - Gwella rheolaeth gwastraff yn ystod y tymor twristiaeth.

## YSTYR

### Pobl a Chymuned

**C** - Gwasanaeth iechyd da.

**C** - Mae sefydliadau ac asedau cymunedol lleol cryf yn eu lle. Er enghraifft, gerddi cymunedol, llyfrgell, Canolfan Hamdden, Cyngor Tref gweithgar a Chymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn.

**C** - Mae arweinyddiaeth leol gref, cymunedau wedi eu grymuso, a phobl leol yn cyflawni newid lleol.

**C** - Mae gweithgaredd chwaraeon llewyrchus ar lawr gwlad, heb sôn am dîm pêl-droed Cynghrair Cymru sy'n hyrwyddo'r dref yn genedlaethol ac ar draws Ewrop.

**C** - Mae gan y Bala gymuned fusnes gref ar y Stryd Fawr.

**C** - Y Bala a'i thrigolion sydd wedi llunio'r Gymru fodern.

**CY** - Gweithio gyda'r gymuned i newid a thrawsnewid y dref.

**CY** - Cefnogi busnesau lleol i ffynnu ac i grwpiau cymunedol gynnal ac ehangu eu gwasanaethau.

**CY** - Datblygu strategaeth dwristiaeth gynaliadwy sy'n diogelu anghenion trigolion tra'n croesawu ymwelwyr.

**CY** - Hyrwyddo a chynnal rôl y Bala fel canolfan allweddol i gymunedau ehangach Penllyn.

**CY** - Ei gwneud yn haws canfod gwybodaeth a gweithgareddau a ddarperir gan fentrau cymdeithasol y gymuned leol.

### Hunaniaeth

**C** - Treflun a strwythur trefol llawn cymeriad gydag ardal gadwraeth helaeth a nifer o adeiladau rhestredig.

**C** - Diwylliant Cymreig cryf ac ymdeimlad o hunaniaeth gyda 73% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

**C** - Hanes cyfoethog a balch wedi'i integreiddio i greu'r Gymru fodern.

**C** - Tirwedd naturiol unigryw.

**CY** - Creu amgueddfa neu ganolfan wybodaeth ac adfer a gwarchod yr adeiladau hanesyddol.

**CY** - Hyrwyddo cysylltiad Y Bala â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

**CY** - Datblygu llwybr hanesyddol/naturiol gydag elfennau ffisegol a chodau QR rhithwir.

**CY** - Hyrwyddo'r Bala fel cyrchfan antur a gwneud y gorau o'r asedau naturiol presennol (tirwedd, antur llyn, ac ati)

**CY** - Hyrwyddo'r sector amaethyddol lleol drwy'r dref a marchnata a gwerthu cynnyrch lleol yn y dref.

## Dadansoddiad Canol Tref

### Trosolwg o'r Bygythiadau a Gwendidau



Stryd Fawr. Mae seilwaith ffyrdd a mannau parcio yn dominyddu'r mannau cyhoeddus.



Hen adeilad sinema.



Hen ysgol.

Cynllun Bygythiadau a Gwendidau






## Dadansoddiad Canol Tref

### Trosolwg o'r Bygythiadau a Gwendidau

Isod mae trosolwg o'r Bygythiadau (Bygythiadau - B) a Gwendidau (Gwendidau-G) allweddol a amlygwyd yn ystod y dadansoddiad o leoedd ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid ar sail yr Egwyddor Creu Lleoedd.

## Gweithgaredd

### Symudiad

**B** - Y Stryd Fawr yw'r A494 sy'n golygu bod llawer o draffig yn amharu ar yr amgylchedd i gerddwyr. Fel cefnffordd mae gofynion dylunio priffyrdd penodol nad ydynt o dan reolaeth y Cyngor ac sy'n lleihau cyfleoedd i wella'r llwybrau troed a'r ardaloedd i gerddwyr ar hyd y Stryd Fawr.

**B** - Prinder trafnidiaeth gyhoeddus (un bws bob dwy awr).

**G** - Gall mannau parcio a mannau llwytho ar ddwy ochr y Stryd Fawr amharu ar brofiad cerddwyr.

**G** - Gellid gwella'r cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr rhwng canol y dref a Llyn Tegid.

**G** - Prinder llwybrau beicio a dim digon o le storio.

**G** - Nid yw arwyddion a chyfeirbwyntiau yn adlewyrchu treftadaeth a chymeriad diwylliannol y Bala.

**G** - Gellid gwella llwybrau cerdded allweddol rhwng y Stryd Fawr a mannau cyhoeddus allweddol fel yr ysgol, meysydd chwaraeon a'r Pafiliwn.

**G** - Gellid gwella hygyrchedd ar hyd y Stryd Fawr fel bod yr amgylchedd ffisegol yn gynhwysol i holl ddefnyddwyr canol y dref.

**G** - Mae diffyg camau gorfodi wrth barcio ar hyd y Stryd Fawr yn arwain at lefydd parcio tymor byr yn cael eu defnyddio gan un cerbyd am gyfnodau hir.

### Defnydd Cymysg

**B** - Diffyg tai fforddiadwy ar gyfer y gymuned leol (yn enwedig pobl ifanc a hŷn).

**B** - Mae dyfodol banciau yn y dref yn ansicr, a dim ond HSBC sydd ar ôl, gydag eraill wedi cau.

**B** - Gall diffyg amrywiaeth o ddefnyddiau ar hyd y Stryd Fawr a chanol y dref ehangach olygu bod y dref yn dawel am gyfnodau hir o'r flwyddyn.

**B** - Nifer fechan o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn y dref a'r ardal ehangach ar gyfer trigolion.

**B** - Diffyg cyflogaeth leol trwy gydol y flwyddyn i bobl ifanc.

**G** - Er bod cyfraddau eiddo gwag yn isel mae rhai o'r mannau gwag yn fawr neu'n agos at ei gilydd. Er enghraifft, hen Sinema'r Bala, Neuadd y Cyfnod, yr Hen Ysgoldy a'r Llong - Ship Inn (ac adeiladau cefn ar Stryd y Berwyn). Y tu allan i ganol y dref, mae Hwb Bala hefyd yn wag.

**G** - Mae'r llwybrau troed yn rhy gul i rai caffis a bwytai allu cael gofod all-lif (spill-out) gerllaw i ehangu gweithgaredd masnachol.

**G** - Mae diffyg dewis o archfarchnadoedd groser cenedlaethol yn golygu bod llawer o bobl yn teithio allan o'r ardal leol i wneud siopa fforddiadwy dydd i ddydd na ellir ei brynu gan fanwerthwyr lleol annibynnol.

## Lleoliad Ffisegol

### Lleoliad

**B** - Gall lleoliad cyfleus y Bala a'r ffaith fod yn dref yn agos at asedau naturiol gwych arwain at lefelau twristiaeth anghynaladwy a diffyg parch at ddiwylliant y dref.

**B** - Diffyg cyfleoedd cyflogaeth gan mai prin yw'r cyfleoedd yn lleol.

**G** - Ar wasgar oherwydd fod mannau allweddol yn bell a bod diffyg cysylltiadau i feicwyr a cherddwyr.

**G** - Does dim llwybr (beicio na cherdded) o amgylch y llyn.

**G** - Mae arosfannau bysiau wedi'u gwasgaru ar hyd y Stryd Fawr ond nid yw'r gwasanaeth bws yn cysylltu â lleoedd a gweithgareddau yn yr ardaloedd cyfagos.

**G** - Mae'r farchnad da byw yn ased allweddol ond efallai nad yw wedi'i lleoli yn y man gorau ar gyfer gweithredu a thyfu.

**G** - Er bod cyfleusterau da, nid ydynt i gyd wedi'u lleoli'n ganolog, er enghraifft y llyfrgell.

**G** - Mae angen gwella ac ail-frandio gwefan Croeso i'r Bala / Visit Bala.

**G** - Nid yw'r Bala wedi'i leoli'n agos at brif aneddiadau eraill, ac mae hyn, yn ogystal â gwasanaethau bws cyfyngedig, yn golygu y gall deimlo'n ynysig i bobl heb gerbydau preifat.

**G** - Mae Rheilffordd Llyn Tegid yn gaffaeliad mawr ond mae'r orsaf wedi ei lleoli yn rhy bell o ganol y dref.

### Parthau\ Cyhoeddus

**B** - Mae cefnffordd yr A494 yn llesteirio gweithrediad mannau cyhoeddus cyfagos, a'r gallu i newid y parthau cyhoeddus cyfagos i ddefnydd gwell neu i wella gweithrediad y dref.

**B** - Mae diffyg mannau awyr agored cynhwysol a darpariaethau i blant a phobl ifanc gymdeithasu.

**G** - Gellid gwella'r parth cyhoeddus. Dim ond ychydig o fannau cyhoeddus a mannau eistedd sydd i bobl ymgysylltu a chymdeithasu ynddynt.

**G** - Mae rheolaeth gwastraff yn wael yn ystod cyfnodau prysur oherwydd twristiaeth.

**G** - Nid oes gan y rheolaethau ardal gadwraeth lawer o rym, ac mae nodweddion pensaernïol wedi'u colli ar lawer o adeiladau nad ydynt yn rhestredig.

**G** - Er bod coed wedi'u plannu ar hyd y Stryd Fawr, ychydig o wyrddni a mannau gwyrdd sydd yng nghanol y dref.

**G** - Mae'r mannau cyhoeddus ar y Stryd Fawr yn eithaf darniog ac wedi'u cyfyngu gan y ffordd a'r mannau parcio.

## Ystyr

### Pobl a Chymuned

**B** - Gall twristiaeth heb ei reoleiddio a heb ei reoli fod yn fygythiad i'r gymuned leol os na fuddsoddir yn seilwaith y dref i gefnogi nifer yr ymwelwyr.

**B** - Mae'r ganolfan hamdden yn boblogaidd ac wedi denu buddsoddiad, ond mae'n her barhaus i barhau i ddenu pobl i ddefnyddio'r cyfleuster.

**B** - Mae rhai busnesau lleol yn ei chael yn anodd cael cymorth grant.

**B** - Mae'r Meddyg Teulu lleol o oedran ymddeol ac nid oes gan y dref ddeintydd.

**B** - Nid yw rhai ymwelwyr yn parchu'r Bala a'r bobl leol, ac maent yn ei weld fel maes chwarae i'w ddefnyddio ac yna'i adael.

**B** - Mae sefydliadau cymunedol lleol yn gwneud gwaith hanfodol ac yn llwyddiannus ond mae'n her denu buddsoddiad i gynnal y gwasanaethau y maent yn eu darparu – gwasanaethau y mae angen mawr amdanynt.

**B** - Mae'r rhagolygon i'r dyfodol ar gyfer pobl ifanc yn anodd gyda dewisiadau cyflogaeth yn brin a phrinder cartrefi fforddiadwy i fyw ynddynt.

**B** - Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd dirywiad yn yr iaith Gymraeg.

**W** - Mae'r fenter gymdeithasol gymunedol leol yn darparu llawer o glybiau a digwyddiadau ar gyfer gwahanol grwpiau. Fodd bynnag, mae angen gwella'r gallu i gael at y wybodaeth am y gweithgareddau hyn.



Canolfan Hamdden.

### Hunaniaeth

**B** - Mae'r defnydd cynyddol o ddeunyddiau 'modern' ac arddull fodern yn fygythiad i gymeriad y dref.

**B** - Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

**B** - Nid yw'r datblygiadau diweddaraf yn yr Ardal Gadwraeth ac o'i chwmpas o'r safon gorau.

**W** - Mae hunaniaeth graidd y Bala wedi ei wreiddio o fewn ei hanes a'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw hanes cyfoethog y dref yn cael ei adlewyrchu yng nghanol y dref.

# 03. Uchelgeisiau a Strategaeth Lleoedd

## Uchelgeisiau Creu Lleoedd

Yn dilyn cwblhau'r dadansoddiad o leoedd, **paratowyd cyfres o uchelgeisiau lleoedd craidd i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y dref** i'r dyfodol a fframio'r math o fuddsoddiad a phrosiectau a fydd yn cael eu hystyried. Mae'r uchelgeisiau yn ymateb i'r lleoedd, y dadansoddiad SWOT ac adborth allweddol y rhanddeiliaid.

Cyflwynir yr uchelgeisiau craidd isod fesul Egwyddor yn y Siarter Creu Lleoedd.



**GWEITHGAREDD**

**TREF HAWDD EI CHYRRAEDD LLAWN CYSYLLTIADAU**

... llwybrau cerdded ardderchog yn cysylltu'r Stryd Fawr, Llyn Tegid a chyrchfannau lleol allweddol eraill; gyda gwasanaethau bws aml a dibynadwy; lleoedd parcio niferus a chyfleus; a rhwydwaith feicio o ansawdd uchel sy'n sefydlu'r dref fel canolbwynt i grwydro'r ardaloedd cyfagos.

SYMUDIAD

**LLE GWYCH I FYW, GWEITHIO AC YMWELD**

...gyda dewis o gartrefi newydd o ansawdd uchel, swyddi hygyrch a chymorth i fusnesau newydd, a mynediad at ystod eang o wasanaethau a darpariaethau hamdden a chwaraeon unigryw.

FFENYDD CYMYSG



**LLEOLIAD FFISEGOL**

**CYRCHFAN DWRISTIAETH GYNALIADWY**

...a'i gwreiddiau'n ddwfn mewn treftadaeth a hanes cyfoethog Cymru, cynnyrch lleol rhagorol a thirwedd naturiol unigryw, sydd yn darparu arlwy hamdden ac adloniant heb ei ail.

LLEOLIAD

**ARDAL DREFOL UNIGRYW A GWYDN**

...adeiladau rhestredig niferus a Stryd Fawr fywiog, llawn gwyrddni, gyda mannau cyhoeddus deniadol sy'n gallu cefnogi cymdeithasu ac ymdeimlad cryf o gymuned.

PARTH CYHOEDDUS

**CYMUNED GYDA CHALON**

...cefnogi a gwasanaethu'r trigolion, busnesau a grwpiau lleol, yn ogystal â'r cymunedau gwledig cyfagos.

POBL A CHYMUNED

**CALON DIWYLLIANT A HUNANIAETH CYMRU**

...sy'n dathlu treftadaeth a hanes cyfoethog y Bala trwy gelfyddyd gyhoeddus wedi'i churadu, digwyddiadau diwylliannol a mannau pwrpasol.

HUNANIAETH

**YSTYR**



## Strategaeth Lleoedd a Rhestr Ymyriadau

1. Datblygu brand digidol a marchnata ar gyfer y dref.
2. Datblygu cynllun cludiant cymunedol i wella hygyrchedd y dref.
3. Datblygu strategaeth twristiaeth gynaliadwy i'r Bala wedi'i chefnogi gan y dreftadaeth Gymreig a'r asedau naturiol, a Chynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau i ymestyn y tymor twristiaeth.
4. Adfywio'r Stryd Fawr er mwyn darparu gwell profiad i gerddwyr. Cyflwyno gwyrddni, ehangu'r palmant a lleihau maint y mannau parcio mewn ardaloedd wedi eu targedu i ddarparu mannau all-lif (spill-out) i fusnesau lleol. Ymchwilio i allu darparu triniaeth wyneb palmantog ymyl gwastad ar hyd rhan graidd y Stryd Fawr i leihau cyflymder cerbydau a blaenoriaethu cerddwyr. Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau i gynyddu'r defnydd o fannau cyhoeddus trwy gydol y flwyddyn.
5. Adfywio hen adeilad a safle'r Sinema.
6. Creu mynedfa ddeheuol newydd sy'n gwella'r cysylltedd rhwng promenâd glan y llyn a'r Stryd Fawr ac integreiddio Gorsaf Reilffordd arfaethedig Llyn Tegid, cysylltiadau a darpariaethau cerddwyr a beicwyr, arwyddion a chyfeirbwyntiau, celf gyhoeddus a goleuadau. Ystyried y posibiliadau ar gyfer gwaith o adnewyddu hen adeilad y sinema a'r safle gan gyflwyno defnydd cymunedol newydd fel rhan o ail gam y prosiect.
7. Buddsoddi yn y cyfleusterau cymunedol presennol a'u cefnogi. - Pafiliwn Cymunedol Y Bala a Phenllyn - Y Ganolfan Dreftadaeth - Canolfan Henblas - Capel Hefin - Ysgol Beuno Sant - Theatr Heol Ffrydan - Byw'n Iach Penllyn
8. Gwella'r man cyhoeddus gwyrdd presennol o flaen y gerddi cymunedol a darparu mannau awyr agored cynhwysol ar gyfer merched a bechgyn yn eu harddegau.
9. Gwella'r mannau cyhoeddus gwyrdd presennol ym mhen gogleddol y dref i ddarparu cyfleusterau gwell a mwy cynhwysol.
10. Ystyried y defnydd o dir yr ysgol a darpariaethau chwaraeon at ddefnydd y cyhoedd y tu allan i oriau ysgol.
11. Datblygu strategaeth canfod ffordd gyson ar gyfer y dref.
12. Darparu llwybr teithio llesol o amgylch y llyn cyfan i gefnogi'r cynnig hamdden lleol.
13. Nodi cyfleoedd i ymateb i'r cynnydd mewn costau siopa tra hefyd yn cefnogi'r siopau annibynnol lleol (ee cynlluniau cardiau teyrngarwch, grantiau, ac ati).
14. Datblygu llwybr hanesyddol ffisegol a digidol gan ddefnyddio codau QR, celf gyhoeddus a byrddau gwybodaeth yn cysylltu elfennau, adeiladau a gofodau allweddol (e.e. Tomen y Bala) o fewn y dref gan alluogi ymwelwyr i ddarganfod hanes cyfoethog yr ardal. Archwilio'r cyfleoedd i agor amgueddfa neu gynnal arddangosfa barhaol o fewn adeiladau cymunedol presennol.
15. Gwella hygyrchedd i wybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau lleol.
16. Gwella cysylltedd cerddwyr i'r ysgol.
17. Ailddatblygu/adnewyddu hen safle'r ysgol. Archwilio opsiynnau megis cartrefi newydd i'r gymuned leol a mannau cyhoeddus gwyrdd hygyrch neu adfywio'r safle i ddarparu uned lloeren o hwb datgarboneiddio Tŷ Gwyrddfai ym Mhenygroes i ddarparu hyfforddiant a phrentisiaethau i bobl leol.
18. Mae mynediad cerbydau i'r farchnad da byw wedi dod yn fwy cyfyngedig gyda datblygiad y dref. Ymgysylltu â pherchennog y farchnad da byw i ystyried ffyrdd o wella mynediad i'r farchnad.
19. Gwella'r cae pob tywydd ar dir yr ysgol.
20. Cyflwyno marchnad ffermwyr achlysurol sy'n gwerthu cynnyrch lleol.
21. Ailagor yr hen adeilad antur y tu allan i'r dref (Yr Hwb) a darparu caffi a chyfleusterau chwarae a hamdden dan do i bob oed.
22. Adnewyddu adeiladau gwag a darparu defnyddiau newydd lle bo'n briodol, megis unedau preswyl newydd, adeiladau llety, defnyddiau cymunedol a manwerthu.
23. Adfywio llwybr hamdden yr hen reilffordd rhwng y Bala a Thrawsfynydd.

○ Prosiect yn cael ei ddatblygu

Uchelgais(ion) lleoedd craidd a gefnogir

### Cynllun Strategaeth

Esboniad:

- Ffin Datblygu Tai (CDLl)
- Maes Astudiaeth Ffocws
- Ffyrdd
- Adeilad wedi'i Adn-
- Adeilad Cymunedol
- Stryd Fawr Wyrddach
- Gwell Llwybr Hamdden
- Gwell Cyswllt i Gerddwyr/Beicwyr
- Gorsaf Reilffordd arfaethedig Llyn Te
- Porth Gwell
- Gwell Mannau Cyhoeddus
- Mannau Cyhoeddus Gwyrdd
- Darpariaeth Lled-Hygyrch i'r Cyhoec
- Safle Prosiect Allweddol



# 04. Cynllun Gweithredu

## Cynllun Gweithredu

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu sut y gellir cyflwyno'r ystod arfaethedig o ymyriadau drwy nodi'r effaith, yr amserlen a'r rhanddeiliad arweiniol ar gyfer pob prosiect. Adroddir ar y prosiectau yn ôl trefn yr effaith fwyaf. Mae ffeil weithredol o'r tabl isod wedi ei ddosbarthu i Gyngor Gwynedd i'w ddefnyddio fel arf hyblyg byw i olrhain cyflwr y prosiectau.

* Prosiectau gofodol allweddol.
** Buddion cyflym.

Amserlen
Tymor byr: Cychwyn o fewn 1 flwyddyn
Tymor canolig: Cychwyn 1-5 mlynedd
Tymor hir: Cychwyn y tu hwnt i 5 mlynedd

| N. | Rhestr o Brosiectau | Effaith | Amserlen | Gweithred | Rhanddeiliad(iaid) arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Isel/Canolig/Uchel | Tymor Byr/Canolig/Hir | | |
| 1 | Datblygu brand digidol a marchnata ar gyfer y dref. | Uchel<br><br>Codwyd y mater o frandio digidol a marchnata'r dref yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu cymunedol gan ei fod yn cael ei weld fel darn pwysig o waith sy'n gallu cryfhau hunaniaeth y dref tra hefyd yn cefnogi twristiaeth leol. | Byr | Prosiect eisoes yn cael ei ddatblygu gyda Chyngor Tref y Bala. | **Cyngor Tref y Bala** gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd |
| 2 | Datblygu strategaeth twristiaeth gynaliadwy i'r Bala wedi'i chefnogi gan y dreftadaeth Gymreig a'r asedau naturiol, a Chynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau i ymestyn y tymor twristiaeth. | Uchel | Byr/Canolig | Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref y Bala a Pharc Cenedlaethol Eryri i ddatblygu'r strategaeth twristiaeth gynaliadwy. | **Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref y Bala a Pharc Cenedlaethol Eryri** |
| 3 | Adfywio'r Stryd Fawr er mwyn darparu gwell profiad i gerddwyr. Cyflwyno gwyrddni, ehangu'r palmant a lleihau maint y mannau parcio mewn ardaloedd wedi eu targedu i ddarparu mannau all-lif (spill-out) i fusnesau lleol. Ymchwilio i allu darparu triniaeth wyneb palmantog ymyl gwastad ar hyd rhan graidd y Stryd Fawr i leihau cyflymder cerbydau a blaenoriaethu cerddwyr. Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau i gynyddu'r defnydd o fannau cyhoeddus trwy gydol y flwyddyn. | Uchel | Byr/Canolig<br><br>Y brif her i gyflawni'r prosiect hwn yn llwyddiannus yw gwella cyfathrebu a synergedd rhwng Llywodraeth Cymru, sy'n rheoli'r gefnffordd, a'r awdurdod lleol i gefnogi'r gwaith o ddarparu ymyriadau ar gyfer parthau cyhoeddus yn effeithlon ar hyd y Stryd Fawr. Gan fod y gefnffordd yn cael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod Lleol wedi eu cyfyngu rhag gallu cyflawni'r newidiadau yma, gan achosi rhwystredigaeth yn y gymuned leol. | Datblygu agwedd bartneriaethol a threfoliaeth dactegol/strategaeth yn y cyfamser i'r prosiect.<br>- Cael sgwrs ymgysylltu â'r awdurdod Priffyrdd.<br>- Archwilio'r cyfle i ddatblygu cynllun ymyrraeth dros dro i brofi syniadau megis cyflwyno parclediau, planhigion mewn potiau, ardaloedd ehangach i gerddwyr, ac ati. Ymgysylltu â'r gymuned leol a rhanddeiliaid ac ystyried cyd-ddylunio'r cynllun.<br>- Cyflwyno'r cynllun dros dro a'r rhaglen o ddigwyddiadau a chasglu data am chwe mis (3 mis tymor tawel a 3 mis yn y tymor prysur).<br>- Dadansoddi'r data a gasglwyd a'i ddefnyddio i lywio camau nesaf y prosiect (dychwelyd/diwygio/cynllun parhaol).<br><br>I'w ystyried hefyd:<br>- Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau i hybu'r defnydd o'r mannau cyhoeddus.<br>- Datblygu strategaeth i godi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion ac ymwelwyr am barcio cyfreithlon a chyfrifol a mynd i'r afael ag ymddygiad parcio gwael. Gorfodaeth Parcio Sifil Gwynedd i ymgysylltu â'r gymuned i nodi mannau problemus ac amseroedd y dylai'r tîm GPS ganolbwyntio arnynt. | **Priffyrdd Llywodraeth Cymru a Gwynedd**, Cyngor Tref y Bala, Busnesau'r Dref |
| 4 | Adfywio hen adeilad a safle'r Sinema. | Uchel<br><br>Mae dyfodol yr hen adeilad sinema yn bwnc sensitif i'r gymuned leol. Mae'r adeilad wedi bod ar gau ers 2018 gan ei fod yn cael trafferth i fod yn hunangynhaliol yn ariannol ac angen gwaith strwythurol drud. Mae'r adeilad hefyd wedi'i nodi fel "Ased o Ddiddordeb Lleol Arbennig Heb ei Gynllunio" yn y 'Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth' diweddaraf ar gyfer y Bala, ac mae Cwmni Buddiant Cymunedol wedi'i sefydlu i gefnogi ymdrechion i gadw'r adeilad ar gyfer defnydd cymunedol. Mae'r adeilad yn eiddo cyhoeddus ar hyn o bryd. | Canolig | Nodi defnyddiau newydd sy'n gynaliadwy yn ariannol ar gyfer yr adeilad. Blaenoriaethu defnyddiau cymunedol, megis gweithdy, canolbwynt ar gyfer gwaith celf a diwylliannol, lle cychwyn busnes, ac ati. Ystyried integreiddio'r safle gyda Gorsaf Reilffordd newydd Llyn Tegid os caniateir y cais cynllunio. | **Buddsoddwyr Cymunedol a Phreifat Lleol,** Cyngor Gwynedd |
| 5 | Creu mynedfa ddeheuol newydd sy'n gwella'r cysylltedd rhwng promenâd glan y llyn a'r Stryd Fawr ac integreiddio Gorsaf Reilffordd arfaethedig Llyn Tegid, cysylltiadau a darpariaethau cerddwyr a beicwyr, arwyddion a chyfeirbwyntiau, celf gyhoeddus a goleuadau. Ystyried y posibiliadau ar gyfer gwaith o adnewyddu hen adeilad y sinema a'r safle gan gyflwyno defnydd cymunedol newydd fel rhan o ail gam y prosiect. | Uchel<br><br>Byddai'r porth newydd yn darparu gwell synergedd rhwng canol y dref, y llyn, a'r rheilffordd dreftadaeth gan ddenu ymwelwyr a chefnogi nifer yr ymwelwyr ac economi'r dref. | Canolig/Hir<br><br>Cam 1 - Estyniad i Reilffordd Llyn Tegid: Mae Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid wedi datblygu cynnig i ymestyn y rheilffordd o orsaf bresennol Pen-y-Bont i ganol y dref. Mae Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid wedi cyflwyno cais cynllunio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Ebrill 2024. Gan fod tir allweddol eisoes wedi cael ei gaffael i symud ymlaen, mae gan yr estyniad rheilffordd y potensial i gael ei gyflawni o fewn ychydig flynyddoedd.<br><br>Cam 2 - Hen Adeilad Sinema/Adfywio safle Neuadd Buddug: (Yn dibynnu ar y cais cynllunio a gymeradwywyd, argaeledd yr adeilad ar adeg cam dau, a chefnogaeth y gymuned leol) Mae integreiddio safle'r hen sinema fel rhan o'r porth deheuol wedi'i adfywio yn ychwanegu lefel ychwanegol o gymhlethdod i'r prosiect. Fodd bynnag, mae'r fantais o ddefnyddio'r safle i gysylltu'r orsaf drenau â'r Stryd Fawr yn sylweddol ac rydym yn galw am integreiddio adfywiad y safle a'r adeilad gydag estyniad Rheilffordd Llyn Tegid os yn bosibl. | Cam 1: Os caniateir y cais cynllunio i'r prosiect, Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid fydd yn arwain y gwaith o gyflawni'r prosiect.<br><br>Cam 2: Mynegodd yr Ymddiriedolaeth ddiddordeb hefyd mewn ehangu'r prosiect o bosibl i gynnwys yr hen adeilad sinema a'r safle i ddarparu cysylltiad uniongyrchol o'r orsaf drenau i'r stryd fawr. Ar y cam hwn, dylai Cyngor Gwynedd ymgysylltu â'r Ymddiriedolaeth a'r gymuned leol i nodi defnyddiau posibl a chefnogi adfywiad yr hen adeilad sinema yn y modd a all fod o fudd gorau i'r gymuned leol a chyflawni gweledigaeth y Cynllun Creu Lle. | Cam 1: **Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid,** a chyswllt cerddwyr **Perchnogion Tir**<br><br>Cam 2: Cymuned Leol/ Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn y Bala/ Cyngor Gwynedd/CBC Neuadd Buddug/Cyngor Tref y Bala |

## Cynllun Gweithredu

| N. | Rhestr o Brosiectau | Effaith | Amserlen | Gweithred | Rhanddeiliad(iaid) arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Isel/Canolig/Uchel | Tymor Byr/Canolig/Hir | | |
| 8 | Gwella'r man cyhoeddus gwyrdd presennol o flaen y gerddi cymunedol a darparu mannau awyr agored cynhwysol ar gyfer merched a bechgyn yn eu harddegau. | Canolig/Uchel | Byr | Ymgysylltu â phobl ifanc lleol yn eu harddegau i nodi'r gofynion gofod a chyd-ddylunio'r gofod. Cynnal ymgysylltiad trwy grwpiau â ffocws gyda merched a grwpiau eraill sydd fel arfer heb gael eu cynnnwys o fewn cynlluniau ar gyfer mannau cyhoeddus i sicrhau bod mannau cynhwysol yn cael eu dylunio. Cyfle i gynnwys yr ysgol a chyd-ddarparu gofod wedi'i adfywio gyda'r gymuned. | **Y Gymuned Leol, cymdeithasau chwaraeon, clwb pêl-droed** |
| 9 | Gwella'r mannau cyhoeddus gwyrdd presennol ym mhen gogleddol y dref i ddarparu cyfleusterau gwell a mwy cynhwysol. | Canolig/Uchel | Byr | Ymgysylltu â gwahanol grwpiau o'r gymuned leol i nodi'r gofynion ar gyfer y gofod. Cyfle i gynnwys y gymuned leol i gyd-ddylunio a chyd-ddarparu adfywiad y gofod. | **Y Gymuned Leol, Cyngor Tref y Bala** |
| 10 | Ystyried y defnydd o dir yr ysgol a darpariaethau chwaraeon at ddefnydd y cyhoedd y tu allan i oriau ysgol. | Canolig/Uchel | Byr | Cyngor Tref y Bala i ymgysylltu â'r ysgol a chyflawni'r prosiect. | **Cyngor Tref y Bala, Cyngor Gwynedd** (Ysgol Godre'r Berwyn a Llywodraethwyr) |
| 11 | Datblygu strategaeth 'arwyddbostio' gyson ar gyfer y dref. | Canolig/Uchel | Byr/Canolig | Bydd y strategaeth yn cael ei llywio gan y brandio. Ystyried artistiaid lleol i integreiddio celf gyhoeddus o fewn y dref. | **Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref y Bala** |
| 12 | Darparu llwybr teithio llesol o amgylch y llyn cyfan i gefnogi'r cynnig hamdden lleol. | Canolig/Uchel | Hir Mae'r llwybr beicio o amgylch y llyn bron wedi'i gwblhau ac eithrio rhan fach sydd â chyfyngiadau ar y ddwy ochr. Mae cyflwyno'r llwybr beicio yma yn heriol ond byddai'n cynnig ased gwych i'r dref. | Comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cyflwyno rhan olaf y cylch beicio o amgylch y llyn. | **Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref y Bala a Pharc Cenedlaethol Eryri, Priffyrdd Llywodraeth Cymru, Tirfeddiannwr(wyr) preifat** |
| 13 | Nodi cyfleoedd i ymateb I'r cynnydd mewn costau siopa tra hefyd yn cefnogi'r siopau annibynnol lleol (ee cynlluniau cardiau teyrngarwch, grantiau, ac ati). | Canolig/Uchel | Canolig/Hir | Ymgysylltu â'r gymuned leol a busnesau lleol i nodi opsiynau posibl. Comisiynu astudiaethau dichonoldeb i nodi'r opsiwn gorau i fynd i'r afael â hyn. | **Fforwm Busnes y Bala** gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd |
| 14 | Datblygu llwybr hanesyddol ffisegol a digidol gan ddefnyddio codau QR, celf gyhoeddus a byrddau gwybodaeth yn cysylltu elfennau, adeiladau a gofodau allweddol (e.e. Tomen y Bala) o fewn y dref gan alluogi ymwelwyr i ddarganfod hanes cyfoethog yr ardal. Archwilio'r cyfleoedd i agor amgueddfa neu gynnal arddangosfa barhaol o fewn adeiladau cymunedol presennol. | Canolig | Byr | Mae llwybr treftadaeth gyda defnydd o god QR yn cael ei ddatblygu ar gyfer digwyddiad Siarter 700 y Bala. Cyngor Tref y Bala i gefnogi hyn a sicrhau bod y llwybr treftadaeth yn cael ei hysbysebu, ac yn cydfynd â brand y dref. | **Cyngor Tref y Bala** |
| 15 | Gwella hygyrchedd i wybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau lleol. | Canolig | Byr | Asesu'r wybodaeth ar-lein a gwybodaeth ffisegol bresennol a nodi bylchau a gwelliannau posibl. | **Cyngor Tref y Bala, Grwpiau cymunedol lleol** |
| 16 | Gwella cysylltedd cerddwyr i'r ysgol. | Canolig | Byr | Mae gwella'r ardal sy'n cysylltu â'r ysgol eisoes yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Llwybr Diogel i'r Ysgol. | **Cyngor Gwynedd** |
| 17 | Ailddatblygu/adnewyddu hen safle'r ysgol. Archwilio opsiynnau megis cartrefi newydd i'r gymuned leol a mannau cyhoeddus gwyrdd hygyrch neu adfywio'r safle i ddarparu uned lloeren o hwb datgarboneiddio Tŷ Gwyrddfai ym Mhenygroes i ddarparu hyfforddiant a phrentisiaethau i bobl leol. | Canolig | Byr/Canolig | Comisiynu astudiaeth ddichonoldeb i adnabod yr opsiwn adfywio a ffefrir. | **Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref y Bala, Adra (Tai) Cyfyngedig** |
| 18 | Mae mynediad cerbydau i'r farchnad da byw wedi dod yn fwy cyfyngedig gyda datblygiad y dref. Ymgysylltu â pherchennog y farchnad da byw i ystyried ffyrdd o wella mynediad i'r farchnad. | Canolig | Byr/Canolig Mae'r safle mewn perchnogaeth breifat. | Cyngor Tref y Bala a Pharc Cenedlaethol Eryri i ymgysylltu â pherchennog y farchnad i ystyried ffyrdd o reoli mynediad i'r farchnad yn well a sicrhau nad yw'n amharu â'r cynllun Llwybr Diogel i'r Ysgol. | **Cyngor Tref y Bala, Gweithredwr Marchnad Da Byw** |
| 19 | Gwella'r cae pob tywydd ar dir yr ysgol. | Isel/Canolig | Byr | Prosiect yn cael ei ddatblygu. | **Cyngor Gwynedd** (Ysgol Godre'r Berwyn a'r Llywodraethwyr), Y **Clwb Hoci** |
| 20 | Cyflwyno marchnad ffermwyr achlysurol sy'n gwerthu cynnyrch lleol. | Isel/Canolig | Byr/Canolig | Ymgysylltu â'r gymuned leol a busnesau lleol. | **Fforwm Busnes y Bala** gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd |
| 21 | Ailagor yr hen adeilad antur y tu allan i'r dref (Yr Hwb) a darparu caffi a chyfleusterau chwarae a hamdden dan do i bob oed. | Isel/Canolig | Hir Mae'r adeilad mewn perchnogaeth breifat ac ar hyn o bryd mae'n cael ei hysbysebu fel gofod swyddfa, fodd bynnag mae wedi ei adnabod fel adeilad pwysig gan y gymuned. | Cyngor Tref y Bala a Pharc Cenedlaethol Eryri i gefnogi a hwyluso defnydd posib o'r adeilad fel cyfleuster hamdden drwy ymgysylltu â'r perchennog preifat. | **Cyngor Tref Y Bala a Pherchennog Yr Hwb** |
| 22 | Adnewyddu adeiladau gwag a darparu defnyddiau newydd lle bo'n briodol, megis unedau preswyl newydd, adeiladau llety, defnyddiau cymunedol a manwerthu. | Isel/Canolig | Byr/Canolig | I'w arwain gan fuddsoddwyr preifat, ond Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref y Bala a Pharc Cenedlaethol Eryri i ymgysylltu â pherchnogion preifat i sicrhau defnydd cywir o'r adeilad a chefnogi defnyddiau cymunedol posibl pan fo'n briodol. | **Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref y Bala a Buddsoddwyr Preifat. Grwpiau cymunedol lleol** |
| 23 | Adfywio llwybr hamdden yr hen reilffordd rhwng y Bala a Thrawsfynydd. | Isel/Canolig | Byr-Hir<br><br>Cam 1: Byr/Canolig<br>Cam 2: Hir. Mae angen caffael tir gan dirfeddianwyr preifat. | Cyngor Gwynedd i gomisiynu cynllun adfywio ar gyfer y llwybr hamdden.<br><br>Rhan 1: Rhwng y Bala a'r Frongoch;<br>Rhan 2: Y tu hwnt i Frongoch | **Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref y Bala a Pharc Cenedlaethol Eryri** |

# 05. Casgliad



## Casgliad

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn gosod y weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer canol tref y Bala am y 10-15 mlynedd nesaf, gan roi ffocws ar ddathlu diwylliant Cymreig y Bala a harddwch amgylcheddol eithriadol, tra hefyd yn ei sefydlu fel lle unigryw i weithio, byw ac ymweld ag ef.

Bwriad y ddogfen hon yw cynnig hyblygrwydd fel dogfen fyw gyda'r bwriad o gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyflawni uchelgeisiau allweddol ac ymyriadau y gellir eu gweithredu a gafodd eu hadnabod gan y gymuned leol, i ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau.

Gall y prosiectau a nodwyd gael eu cyflawni gan randdeiliaid preifat a chyhoeddus yn gweithio ar y cyd fesul cam. Mae ymglymiad y grwpiau lleol a'r gymuned yn ganolog i lwyddiant a chyflwyno'r Cynllun Creu Lleoedd, ac mae angen ymgynghori pellach i sicrhau cyfleoedd i bobl leol gael mewnbwn i siapio'r prosiectau a/neu helpu i'w cyflawni.

Bydd y cyfleoedd datblygu a chreu lleoedd newydd a nodir gyda'i gilydd yn galluogi'r Bala i wella'n economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, nid yn unig er budd y trigolion ond hefyd y gymuned ehangach, gan weithredu fel catalydd ar gyfer lledaenu twf a ffyniant ar draws yr ardal ehangach.

## Atodiad A

### Adborth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid - 1/3

Er mwyn helpu i lywio dealltwriaeth o ganol y dref heddiw, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol lleol, gan gynnwys Aelodau Lleol ac Aelodau Cyngor Tref, busnesau lleol a grwpiau cymunedol. Disgrifiwyd y dull o ymgysylltu yn Adran 1. Defnyddiwyd pob un o egwyddorion y Siarter Creu Lleoedd wrth ymgysylltu er mwyn clywed barn rhanddeiliaid lleol. Mae crynodeb o'r adborth a gasglwyd isod fesul egwyddor creu lleoedd.

**SYMUDIAD**

- Mae diffyg bysiau (bob dwy awr) yn cyfyngu ar hygyrchedd a chysylltedd i'r dref. I bobl nad ydynt yn gyrru, mae tacsis lleol yn ddrud iawn.
- Mae'r terfyn cyflymder 20mya yn briodol ar gyfer canol y dref, ond mae traffig yn cronni ar hyd y Stryd Fawr yn enwedig yn ystod y tymhorau twristiaeth prysur.
- Mae parcio anghyfreithlon yn broblem, yn enwedig yn ystod cyfnodau twristiaeth prysur.
- Mae nifer dda o lefydd parcio, ond yn aml nid yw pobl yn aros yn hwy nag awr.
- Mae angen darparu arwyddion strategol a chyfeirbwyntiau gwell a chyson ar draws y dref.
- Cyfyngedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- Mae menter llwybr Ysgolion Diogel wedi'i hariannu ac ar y gweill.
- Mae llawer o barcio anghyfreithlon ar draws y dref, yn enwedig yn ystod y tymor prysur. Diffyg gorfodaeth.
- Cwblhau y llwybr teithio llesol o amgylch y llyn i ddarparu llwybr cerdded a beicio diogel a deniadol o amgylch ein Llyn Tegid i gefnogi llesiant a denu ymwelwyr.

**CYMYSGEDD O DDEFNYDDIAU**

- Mae'r Stryd Fawr yn llawn o siopau annibynnol, a phrin yw'r siopau gwag. Fodd bynnag, mae cynnwys yr archfarchnadoedd yn ddrud iawn a hoffai'r gymuned weld dewis arall rhatach. Yn ystod y tymor twristiaeth prysur, mae silffoedd yn aml yn cael eu gwagio gan ymwelwyr sy'n gadael fawr ddim i'r bobl leol.
- Mae potensial i wasanaethau iechyd ddenu pobl i'r dref.
- Nid oes cyfleoedd ar gyfer adeiladu tai newydd yn y Bala gan nad oes tir ar gael ac mae problem ffosffadau. Fodd bynnag, a ellid defnyddio Ysgol Bro Tegid ar gyfer datblygiad tai posibl?
- Cyfle i gynyddu defnydd hamdden yng nghanol y dref. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd yn syth at y llyn ac felly mae llai o ymwelwyr yn mynd i'r dref. Potensial ar gyfer wal ddringo a lle chwarae meddal yn y dref.
- Mae theatr yn gaffaeliad mawr i'r dref ac yn cael ei defnyddio'n dda gan y gymuned.
- Mae faniau gwersylla yn achosi niwsans yn yr haf, ac mae cynnydd mewn Airbnbs yn cynyddu prisiau tai, a'r galw amdanynt.
- Mae'r llyfrgell yn yr ysgol ar hyn o bryd - yn gweithio'n dda ar gyfer defnyddwyr oedrannus Cysgod y Coleg ac Awel y Coleg. Dim llawer o awydd i'w symud er ei bod ychydig yn bell o'r dref.
- Ymestyn y tymor twristiaeth trwy raglen o ddigwyddiadau wedi'u curadu.
- Mae rhai busnesau'n defnyddio eu mannau parcio i greu gofod masnachu all-lif (spill-out), gan ddangos y galw am ofod allanol a 'diwylliant palmant'.
- Mae llawer o safleoedd gwersylla faniau yn yr ardal. Dod o hyd i ffordd i fanteisio ar y rhain.
- Potensial i wasanaethau iechyd ddenu pobl i'r dref.
- Mae'r theatr yn gaffaeliad mawr i'r dref ac yn cael ei defnyddio'n dda.
- Mae pob uned ddiwydiannol yn llawn.



## Atodiad A

### Adborth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid - 2/3

**LLEOLIAD**

- Mae'r Bala yn gwasanaethu holl ardal Penllyn. Mae'n lleoliad strategol nid yn unig ar gyfer twristiaeth ond hefyd ar gyfer amaethyddiaeth a gwasanaethau cymunedol eraill. Mae hyn hefyd yn creu her gan fod poblogaeth fechan ond dalgylch mawr.
- Hoffai'r gymuned weld arlwy bwyd gwell a mwy fforddiadwy gan fod rhaid iddynt deithio i Langollen neu Rhuthun ar hyn o bryd i brynu bwyd. Ar yr un pryd byddai archfarchnad yn y dref yn niweidio siopau bach sy'n cynnal yr economi leol ac yn allweddol i gymeriad y dref.
- Datblygu twristiaeth gynaliadwy.
- Gall y Llyn ddwyn cyfleoedd o ganol y dref - mae angen gwell synergedd rhwng y ddau. Yn enwedig yn ystod misoedd yr haf pan mae'n boeth, mae pobl yn heidio at y llyn gan anwybyddu'r dref.
- Defnyddio Wi-fi a Thechnoleg Gwybodaeth i ddeall y defnydd o fannau cyhoeddus a chasglu data nifer yr ymwelwyr.
- Mae bygythiad o foneddigeiddio'r dref.
- Mae gwefan y dref wedi darfod. Mae angen gwell presenoldeb cymdeithasol a brandio gwell.
- Mae Bala mewn lleoliad strategol o fewn awr i gyrchfannau allweddol.
- Mae gan y Bala ganolfan iechyd ond nid hwb.
- Ystyried datblygu'r Bala fel cyrchfan twristiaeth naturiol gynaliadwy sy'n gysylltiedig â de Eryri. Cyfleoedd i ddatblygu de Gwynedd ar gyfer cerdded – llawer llai o bobl wedi canfod yr ardal o'i gymharu â'r Wyddfa. Mynyddoedd y Berwyn yn haws ac yn fwy hygyrch na'r gogledd garw.
- Archwilio'r posibilrwydd i'r Bala ddod yn dref awyr dywyll.

**TIR CYHOEDDUS**

- Cyfyngedig yw'r mannau gwyrdd yng nghanol y dref. Mae angen buddsoddi yn y cyfleusterau chwarae presennol. Byddai mwy o flodau a seilwaith gwyrdd yn wych ond mae angen mwy o refeniw ar gyfer cynnal a chadw.
- Angen gwell dull o ganfod y ffordd o amgylch y dref. Arwyddion mewn meysydd parcio yn ddryslyd ar hyn o bryd.
- Cyfleoedd ar gyfer diwylliant palmant. Gweithiodd hyn yn dda yn ystod y cyfnod clo, ond nid yw'r palmentydd yn ddigon llydan, gan wneud mynediad yn anodd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.
- Angen buddsoddi mewn llwybrau.
- Mae'r A494 yn rhedeg ar hyd y Stryd Fawr gan greu amgylchedd lle mae cerbydau'n rheoli, a lefelau uchel o dagfeydd. Oherwydd cyfyngiadau perchnogaeth, nid oes gan y cyngor lawer o reolaeth dros y Stryd Fawr.
- Dylid gwella rheolaeth gwastraff, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur.
- Datblygu Cynllun Man Gwyrdd i fuddsoddi yn y cyfleusterau chwarae presennol a newydd.
- Cael gwared ar bileri carreg ar balmentydd – yn creu peryglon wrth barcio.

## Atodiad A

Adborth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid - 3/3

### POBL A CHYMUNED

- Mae'r grwpiau cymunedol lleol yn weithgar iawn gan ddangos arweinyddiaeth gymunedol dda. Nid oes angen mwy o fannau cymunedol; dim ond buddsoddiadau i wella'r rhai presennol.
- Mae Llwybr Ysgolion Diogel yn cael ei ariannu ar hyn o bryd ac ar y gweill.
- Cyfle i atgyfnerthu'r gymuned leol a chynnwys pobl ifanc wrth sefydlu busnesau.
- Mae cynnyrch lleol yn atyniad sylweddol.
- Mae'r gymuned amaethyddol leol yn bwysig ac mae angen cefnogi a gwella'r elfen hon - ni ddylai popeth fod yn ymwneud â thwristiaeth.
- Mwy o ddigwyddiadau i ddod â phobl i mewn, fel y triathlon ym mis Medi.
- Gall ymwelwyr fod yn amharchus o'r ardal trwy daflu sbwriel a/neu barcio'n anghyfreithlon.
- Mae cwmniau bach yn cael trafferth cael gafael ar grantiau.
- Mae'r Bala yn ganolbwynt i'r pentrefi cyfagos.
- Mae rhwystredigaethau a rennir ar draws y gymuned ynghylch y cymhlethdod a'r biwrocratiaeth wrth geisio rhoi newidiadau yn eu lle ar y Stryd Fawr.
- Mae cyfleuster desg boeth yng Nghanolfan Henblas. Mae Canolfan Henblas hefyd yn cymryd drosodd Canolfan Bro Tegid - drws nesaf.
- Mae gwasanaeth iechyd da yn yr ardal, ond mae'r meddyg teulu presennol o oedran ymddeol.
- Cefnogi creu mwy o gyflogaeth yn yr ardal.
- Atgyfnerthu'r gymuned leol a chynnwys pobl ifanc i sefydlu busnesau.
- Mae cynnyrch lleol yn atyniad sylweddol.
- Mae'r Triathlon ym mis Medi yn ddigwyddiad gwych i ddenu pobl. Mwy o ddigwyddiadau fel hyn.
- Mae gan y Bala lawer o adeiladau cymunedol, ond mae teimlad fod diffyg neuadd gymunedol o faint priodol.

### HUNANIAETH

- Mae gan y Bala hunaniaeth, diwylliant a hanes cryf iawn ond ar hyn o bryd ychydig o gyfleoedd sydd i ymwelwyr ddarganfod hyn o fewn canol y dref. Ystyried amgueddfa, canolfan wybodaeth a threftadaeth, a llwybr treftadaeth ffisegol a rhithwir wedi'i gyfrwyno gyda chodau QR, byrddau gwybodaeth a chelf gyhoeddus ar draws y dref i ddathlu hanes y dref.
- Mae 73% o drigolion yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ystyried sut i wneud yn fawr o hyn i hyrwyddo'r Bala mewn ffordd gadarnhaol.
- Potensial i wneud y Bala yn gyrchfan antur. Creu mannau dringo, a helpu i gysylltu'r llyn â'r dref.
- Mae'r Bala yn ardal awyr dywyll. Gellid defnyddio hyn fel cyfle twristiaeth.
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng. Dylid gwneud rhywbeth i osgoi gostyngiadau pellach.
- Diffyg gweithio mewn partneriaeth (Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru / Asiantaeth Trunj Riad a'r Cyngor Tref) - Dylai'r Cyngor Tref hwyluso cyfarfodydd blynyddol rhwng partneriaid. Trafodwyd hyn sawl gwaith ac roedd yn ymddangos mai y diffyg hwn oedd y rhwystr mwyaf rhag symud pethau ymlaen (crybwyllwyd Goleuadau Nadolig)
- Mae'r hyn sy'n digwydd yn y 5 mlynedd nesaf yn cael ei ystyried yn hollbwysig (HSBC, Llyfrgell a'r Feddygfa, Coleg y Bala)
- Neuadd Buddug - anhawster gwleidyddol posib.
- Mae'r cyllid refeniw yn hollbwysig ar gyfer unrhyw welliannau.

## Atodiad B

Deunydd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid






the urbanists

**Caerdydd**

The Creative Quarter
8a Morgan Arcade
Cardiff, CF10 1AF

**Bryste**

Studio 410, Generator Building
Finzels Reach
Bristol, BS1 6BX

**Ebost**

info@theurbanists.net

**Ffôn**

029 2023 6133

**www.theurbanists.net**